

## First Minister Oral Statement to the Senedd 17 March 2020

Diolch yn fawr, Llywydd. The Health minister would have begun his statement this afternoon by reminding all Members of how much has changed over the week since he last reported to the Senedd. In that time, the World Health Organization has declared coronavirus as a pandemic. The response in Wales and the other UK nations has moved from containment to delay. Sadly, we have also had our first deaths from coronavirus here in Wales. I know that on behalf of the whole Senedd I express our sorrow and sympathy for the families who have lost loved ones. Sad as it is to say it, we have to expect that there will be more such events in the weeks ahead.

So, the aims of Governments across the United Kingdom in the delay phase of the plan to tackle coronavirus are to slow the spread of the virus and to lower the peak impact, and thus to push it away from the current end of the winter season. Both of these aims will help the NHS to cope with the challenges it will face in caring for larger numbers of very unwell people. Doing this gives us all the best chance of our NHS not being overwhelmed. That in turn means that we can save more lives in the months ahead.

Llywydd, it is inevitable that many more people will now contract the virus. The great majority of people will feel unwell for a short period before making a full recovery at home. They will not need medical intervention. Instead, we need to target our resources on the small percentage of our fellow citizens who will need that additional help. The best advice that we have as a Government is that, at this point in the process of the disease, trying to identify, monitor and contain every case, however mild, is not the best use of the resources we have.

Members here will know that at the COBRA on Monday of this week the Welsh Government agreed with the other three national Governments across the UK to advise the public to take further extraordinary measures. Our advice to people who think they may have coronavirus has strengthened. Anyone who develops a high temperature or a new continuous cough should stay at home for seven days. They should not go to their GP or to a pharmacy or to a hospital, nor should they routinely contact the NHS on 111. People should only seek help if they cannot deal with their symptoms at home, if their condition worsens significantly or if they do not recover within seven days.

As Members here will know, following Monday's COBRA meeting, the advice for people now is that if you are living with somebody in a household where someone develops a high temperature or a new continuous cough, then the whole household should stay at home for 14 days. Now, further advice on self-isolation at home is available from Public Health Wales. People are also advised to use the COVID-19 online symptom checker on the NHS Direct Wales website if you have concerns about your symptoms.

Diolch yn fawr, Llywydd. Byddai'r Gweinidog Iechyd wedi dechrau ar ei ddatganiad y prynhawn yma drwy atgoffa'r holl Aelodau o faint sydd wedi newid yn ystod yr wythnos ers iddo gyflwyno ei adroddiad diwethaf i'r Senedd. Yn y cyfnod hwnnw, mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi datgan bod y coronafeirws yn bandemig. Mae'r ymateb yng Nghymru a gwledydd eraill y DU wedi newid o gyfyngu'r haint i oedi ei ledaeniad. Yn anffodus, rydym ni hefyd wedi cael ein marwolaethau cyntaf o achos y coronafeirws yma yng Nghymru. Gwn fy mod i, ar ran y Senedd gyfan, yn estyn ein tristwch a'n cydymdeimlad i'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid. Cyn dristed ag yw dweud hyn, mae'n rhaid i ni ddisgwyl y bydd mwy o ddigwyddiadau o'r fath yn yr wythnosau i ddod.

Felly, amcanion Llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig yng nghyfnod oedi y cynllun i fynd i'r afael â'r coronafeirws yw arafu lledaeniad y feirws ac i leihau effaith penllanw'r haint, ac felly i'w wthio o ddiwedd tymor y gaeaf presennol, sef y cyfnod yr ydym ni ynddo ar hyn o bryd. Bydd y ddau amcan hyn yn helpu'r GIG i ymdopi â'r heriau y bydd yn eu hwynebu wrth

ofalu am niferoedd mwy o bobl sâl iawn. Mae gwneud hyn yn rhoi'r cyfle gorau i ni gyd na chaiff ein GIG ei lethu. Mae hynny yn ei dro yn golygu y gallwn ni achub mwy o fywydau yn y misoedd i ddod.

Llywydd, mae'n anochel y bydd llawer mwy o bobl yn dal y feirws nawr. Bydd y mwyafrif helaeth o bobl yn teimlo'n sâl am gyfnod byr cyn gwella'n llwyr gartref. Ni fydd angen ymyrraeth feddygol arnyn nhw. Yn hytrach, mae angen i ni dargedu ein hadnoddau at y ganran fach o'n cyd-ddinasyddion y bydd angen y cymorth ychwanegol hwnnw arnynt. Y cyngor gorau sydd gennym ni fel Llywodraeth yn ystod y cyfnod hwn o'r haint yw, nad ceisio adnabod, monitro a chyfyngu ar bob achos, waeth pa mor ysgafn bynnag, yw'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym ni.

Bydd Aelodau yn y fan yma yn gwybod bod Llywodraeth Cymru, yn y cyfarfod COBRA ddydd Llun yr wythnos hon, wedi cytuno â'r tair Llywodraeth genedlaethol arall ledled y DU i gynghori'r cyhoedd i gymryd camau eithriadol pellach. Mae ein cyngor i bobl sy'n credu efallai fod y coronafeirws arnyn nhw wedi cryfhau. Dylai unrhyw un sy'n datblygu tymheredd uchel neu beswch parhaus newydd aros gartref am saith diwrnod. Ni ddylen nhw fynd at eu meddyg teulu nac i fferyllfa nac i ysbyty, ac ni ddylen nhw fel rheol gysylltu â'r GIG ar 111. Ni ddylai pobl ofyn am gymorth oni bai eu bod yn methu ag ymdopi â'u symptomau gartref, bod eu cyflwr yn gwaethygu'n sylweddol neu os nad ydyn nhw'n gwella o fewn saith diwrnod.

Fel y gŵyr yr Aelodau yn y fan yma, yn dilyn y cyfarfod COBRA ddydd Llun, y cyngor i bobl nawr yw, os ydych chi'n byw gyda rhywun ar aelwyd lle mae rhywun yn datblygu tymheredd uchel neu beswch parhaus newydd, yna dylai'r aelwyd gyfan aros gartref am 14 diwrnod. Erbyn hyn, mae cyngor pellach ar hunan-ynysu yn y cartref ar gael gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Cynghorir pobl hefyd i ddefnyddio'r gwiriwr symptomau COVID-19 ar-lein ar wefan Galw lechyd Cymru os ydych chi'n pryderu am eich symptomau.

Llywydd, we've also asked people across the wider population to reduce social contact. That includes working from home if you can and not going by choice into crowded areas such as pubs or restaurants. All people aged 70 and over, people under 70 with underlying health conditions and pregnant women should now actively practice social distancing measures. That's because these groups are identified as having a higher risk of becoming seriously unwell and therefore needing to limit their social interaction to reduce the risk of transmission. For those under 70 with underlying health conditions, the starting point is that, if your health condition entitles you to a free NHS flu jab, then you are covered by that advice. In the next week, the NHS will directly contact a range of vulnerable people with specific advice about risks to them. That is likely to involve even more significant measures for those whose immune systems are most significantly compromised.

The position adopted in the other parts of the United Kingdom in relation to large gatherings is now to be followed across the whole of the United Kingdom. Our emergency services will not staff or plan for large public events. They, too, like the rest of the NHS family, will focus their time on dealing with the response to coronavirus as it further develops.

Llywydd, as Members know from earlier this afternoon, there have been questions about our current approach to testing. At this point in the progress of the disease, our focus has shifted away from community testing, because that is the best advice we have. Testing will now focus on people who are admitted to hospital, in line with national guidance and based on symptoms and severity. There is strong evidence from around the world that they can and will recover. This is about ensuring that our testing capacity is focused where there is greatest need. In addition to those in hospital, testing will now be made available to people working in key NHS clinical roles to ensure that they are not taken out of the workplace longer than is necessary. The number of these roles covered will extend as our testing capacity develops. Public Health Wales will continue its surveillance work to understand the overall picture in Wales.

Llywydd, on Friday of last week, our colleague, Vaughan Gething announced far-reaching temporary measures to release NHS capacity to deal with the outbreak. Health and social service providers will suspend non-urgent out-patient appointments and surgical admissions and the monitoring and regulatory regime will be relaxed across the health and care system.

We know that the outbreak will significantly increase the demands made on hospitals, care homes and primary care practitioners, and in particular, on the staff in these organisations. The changes announced last Friday will allow our health and social care system to keep people out of hospital who do not need to be there, and it is even more important than ever before that people who do have the highest need for hospital care can be treated without delay. Friday's decisions will allow health boards and others to make the best use of capacity in priority areas, to redeploy and retrain staff for different roles to respond to the impact of coronavirus and to maintain services for other essential treatments, such as cancer services.

Today, the health Minister has approved the next set of national actions to support health and social care preparedness. These include: guidance provided on the testing of symptomatic healthcare workers in isolation; further urgency in the rolling out of video consultations in primary care; announcing forthcoming guidance on the delivery of dental services to avoid preventable exposure to patients and staff; and further work rapidly to increase critical care beds, staffing and equipment.

Llywydd, right across the Welsh Government, ministerial colleagues continue to work closely with public services across Wales to ensure that they are prepared. Last week, meetings took place with local authority leaders and they have continued into this week. Our local authorities will have all the help and support that we can provide in keeping vital public services running. They too have a hugely important leadership role and that is especially so in the way that they will work with third sector partners to co-ordinate support for the large number of people who will now be self-isolating.

This is a dynamic and rapidly evolving situation, and the Welsh Government will continue to take further measures as necessary and as the evidence dictates. The health Minister intends to publish information on which decisions have been made—the evidence—ahead of the health committee on 18 March, and I know that he still hopes to be able to answer Members' questions alongside the chief medical officer in front of that committee.

In the meantime, we need to go on reminding ourselves and all our fellow citizens of those simple measures that we can all take and that, collectively, will make a difference; those simple steps to help manage and limit the impact of the virus. Maintaining regular hand-washing and self-isolation where necessary will make a real and positive difference, as will helping family, friends and neighbours when they have to self-isolate.

Llywydd, we are asking people to make extraordinary choices to match the extraordinary times we face. We ask people to do this, to help their friends and families; we ask people to do this to help friends and families that they may never otherwise meet. The health Minister, I and ministerial colleagues will, of course, Llywydd, continue to keep Members and the people of Wales fully and regularly informed, as the progress of the disease continues.

Llywydd, rydym ni hefyd wedi gofyn i bobl o bob rhan o'r boblogaeth ehangach i leihau cyswllt cymdeithasol. Mae hynny'n cynnwys gweithio o gartref os gallwch chi a pheidio â mynd o ddewis i ardaloedd gorlawn fel tafarndai neu fwytai. Dylai pawb sy'n 70 oed a hŷn,

pobl o dan 70 â chyflyrau iechyd sylweddol a menywod beichiog fynd ati'n awr i ynysu eu hunain yn gymdeithasol. Mae hynny oherwydd y caiff y grwpiau hyn eu dynodi fel rhai y mae mwy o berygl iddyn nhw fod yn ddifrifol wael ac felly mae angen iddyn nhw gyfyngu ar eu rhyngweithio cymdeithasol i leihau'r perygl o drosglwyddo. I'r rhai sydd o dan 70 sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol, yr egwyddor greiddiol yw, os yw eich cyflwr iechyd yn rhoi'r hawl i chi gael pigiad fflw'r GIG am ddim, yna mae'r cyngor hwnnw'n berthnasol i chi. Yn ystod yr wythnos nesaf, bydd y GIG yn cysylltu'n uniongyrchol ag amrywiaeth o bobl agored i niwed gyda chynghor penodol iddyn nhw ynglŷn â'r peryglon y gallan nhw fod yn eu hwynebu. Mae hynny'n debygol o gynnwys mesurau mwy sylweddol fyth i'r rhai y mae eu systemau imiwnedd wedi eu peryglu'n sylweddol.

Mae'r safbwynt a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ynglŷn â chynulladau mawr o bobl i'w dilyn bellach ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Ni fydd ein gwasanaethau brys yn mynychu nac yn cynllunio ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus mawr. Byddant hwythau hefyd, fel gweddill gwasanaethau'r GIG, yn canolbwyntio eu hamser ar ymdrin â'r ymateb i'r coronafeirws wrth iddo ddatblygu ymhellach.

Llywydd, fel y gŵyr yr Aelodau o adeg gynharach y prynhawn yma, cafwyd cwestiynau ynglŷn â sut yr ydym ni'n mynd ati i brofi ar hyn o bryd. Ar yr adeg hon o gynnydd y clefyd, mae ein pwyslais wedi newid o gynnal profion cymunedol, oherwydd dyna'r cyngor gorau sydd gennym ni. Profir bellach drwy ganolbwyntio ar bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty, yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac yn seiliedig ar symptomau a difrifoldeb. Mae tystiolaeth gref o bob cwr o'r byd y gallan nhw ac y byddan nhw yn gwella. Mae a wnelo hyn â sicrhau ein bod ni'n defnyddio ein gallu i brofi drwy ganolbwyntio ar y mannau lle mae'r angen mwyaf. Yn ogystal â'r rhai sydd mewn ysbytai, bydd profion ar gael nawr i bobl sy'n gweithio yn swyddogaethau clinigol allweddol y GIG er mwyn sicrhau na chânt eu tynnu o'r gweithle yn hirach nag sy'n angenrheidiol. Bydd nifer y swyddogaethau hyn fydd yn gymwys yn ymestyn wrth i'n gallu i brofi ddatblygu. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau â'i waith arolygu i ddeall y darlun cyffredinol yng Nghymru.

Llywydd, ddydd Gwener yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd ein cyd-Aelod, Vaughan Gething, fesurau pellgyrhaeddol dros dro i ryddhau gallu'r GIG i ymdrin â'r achosion. Bydd darparwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn atal apwyntiadau cleifion allanol a llawdriniaethau nad ydynt yn rhai brys ac fe gaiff y drefn fonitro a rheoleiddio ei llacio ar draws y system iechyd a gofal.

Gwyddom y bydd yr haint hwn yn cynyddu'n sylweddol y galwadau a wneir ar ysbytai, cartrefi gofal a gweithwyr gofal sylfaenol, ac yn benodol, ar y staff yn y sefydliadau hyn. Bydd y newidiadau a gyhoeddwyd ddydd Gwener diwethaf yn caniatáu i'n system iechyd a gofal cymdeithasol gadw pobl o'r ysbyty os nad oes angen iddyn nhw fod yno, ac mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen bod pobl sydd â'r angen mwyaf am ofal ysbyty yn cael eu trin yn ddi-oed. Bydd penderfyniadau dydd Gwener yn caniatáu i fyrddau iechyd ac eraill wneud y defnydd gorau o'r gallu sydd ar gael mewn meysydd blaenoriaethol, i adleoli ac ailhyfforddi staff ar gyfer swyddogaethau gwahanol er mwyn ymateb i effaith y coronafeirws a chynnal gwasanaethau ar gyfer triniaethau hanfodol eraill, fel gwasanaethau canser.

Heddiw, mae'r Gweinidog Iechyd wedi cymeradwyo'r gyfres nesaf o gamau gweithredu cenedlaethol i gefnogi'r maes iechyd a gofal cymdeithasol i fod yn barod ar gyfer yr hyn sydd ar y gorwel. Mae'r rhain yn cynnwys: darparu canllawiau ynglŷn â phrofi gweithwyr gofal iechyd symptomatig mewn lleoliadau ynysig; mwy o frys o ran cyflwyno ymgynghoriadau fideo mewn gofal sylfaenol; cyhoeddi canllawiau arfaethedig ynglŷn â darparu gwasanaethau deintyddol fel nad oes rhaid i gleifion a staff ymwneud â'i gilydd yn ddiangen; a gwaith pellach ar fyrder i gynyddu gwelyau, staffio ac offer gofal critigol.

Llywydd, ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, mae fy nghyd-Weinidogion yn parhau i weithio'n agos gyda gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru i sicrhau eu bod yn barod. Yr wythnos diwethaf, cynhaliwyd cyfarfodydd gydag arweinwyr awdurdodau lleol ac maen nhw

wedi parhau i'r wythnos hon. Caiff ein hawdurdodau lleol yr holl gymorth a'r gefnogaeth y gallwn ni eu darparu i gadw gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i barhau. Mae ganddynt hwythau hefyd swyddogaeth arweiniol hynod bwysig, ac mae hynny'n arbennig o arwyddocaol o ran y ffordd y byddan nhw'n gweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i gydgysylltu cefnogaeth i'r nifer fawr o bobl a fydd yn ynysu eu hunain nawr.

Mae hon yn sefyllfa ddynamig sy'n datblygu'n gyflym, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu ymhellach fel y bo angen ac yn unol â thystiolaeth. Mae'r Gweinidog Iechyd yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â pha benderfyniadau a wnaed—y dystiolaeth—cyn cyfarfod y pwyllgor Iechyd ar 18 Mawrth, a gwn ei fod yn dal i obeithio gallu ateb cwestiynau'r Aelodau gyda'r prif swyddog meddygol gerbron y pwyllgor hwnnw.

Yn y cyfamser, mae angen i ni barhau i'n hatgoffa ein hunain a'n holl gyd-ddinasyddion o'r pethau syml hynny y gallwn ni i gyd eu gwneud ac y byddan nhw, gyda'i gilydd, yn gwneud gwahaniaeth; y camau syml hynny i helpu i reoli a chyfyngu ar effaith y feirws. Bydd parhau i olchi dwylo yn rheolaidd a hunan-ynysu pan fo angen yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a chadarnhaol, yn ogystal â helpu'r teulu, ffrindiau a chymdogion pan fydd yn rhaid iddyn nhw hunan-ynysu.

Llywydd, rydym ni'n gofyn i bobl wneud dewisiadau eithriadol fel sy'n gweddu i'r cyfnodau anghyffredin yr ydym yn eu hwynebu. Rydym yn gofyn i bobl wneud hyn, i helpu eu ffrindiau a'u teuluoedd; gofynnwn i bobl wneud hyn i helpu ffrindiau a theuluoedd na fydden nhw yn eu cyfarfod fel arall o bosib. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog Iechyd, minnau a'm cyd-Weinidogion, Llywydd, yn parhau i hysbysu Aelodau a phobl Cymru yn llawn ac yn rheolaidd, wrth i'r clefyd barhau i fynd ar led.